

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau Dyddiad: Dydd Gwener, 17 Ionawr 2014

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 23 IONAWR 2014 am 9.30 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.

Yn gywir iawn

G Williams Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU BUDDIANT

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.





4 **COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2013 (copi ynghlwm).

5 CYFAMOD CYMUNEDOL GYDA'R LLUOEDD ARFOG (TACH/ RHAG 2013) (Tudalennau 13 - 20)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned (copi ynghlwm), er mwyn rhoi diweddariad blynyddol ar sut mae'r mesurau a gyflwynwyd o dan y cyfamod wedi cefnogi cymuned y lluoedd arfog yn Sir Ddinbych, ac er mwyn i'r Pwyllgor ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth er mwyn cryfhau'r cyfamod.

9.35 a.m. – 10.10 a.m.

6 RHAGLEN Y RHYL YN SYMUD YMLAEN (ADRODDIAD CHWARTEROL) (Tudalennau 21 - 52)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes (Arweinydd Tîm Arfordirol) (copi ynghlwm) i alluogi'r Pwyllgor i werthuso a monitro cynnydd a chyflawniadau'r Rhaglen o ran darparu ei ganlyniadau disgwyliedig, a nodi unrhyw lithriadau o ran darparu'r Rhaglen.

10.10 a.m. – 10.40 a.m.

~ ~ ~ ~ ~ EGWYL (10.40 a.m. – 10.55 a.m.) ~~~~~

7 CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL (ADRODDIAD CHWARTEROL) (Tudalennau 53 - 142)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol a'r Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes (copi ynghlwm) sy'n monitro perfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei gynlluniau tref a'u budd i'r trefi eu hunain a chymunedau ymhellach i ffwrdd.

10.55 a.m. – 11.35 a.m.

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 143 - 162)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a diweddaru'r aelodau ynglŷn â materion perthnasol.

11.35 a.m. – 11.55 a.m.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor sy'n aelodau o wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

11.55 a.m. – 12.10 p.m.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

James Davies Peter Arnold Evans Carys Guy Huw Hilditch-Roberts Rhys Hughes Win Mullen-James Bob Murray Joe Welch Cefyn Williams Cheryl Williams Huw Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth Y Wasg a'r Llyfrgelloedd Cynghorau Tref a Chymuned Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Eitem Agenda 4

PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Llun, 25 Tachwedd 2013 am 9.30 am.

PRESENNOL

Cynghorwyr James Davies, Peter Evans, Carys Guy, Rhys Hughes, Bob Murray, Cefyn Williams a Huw Williams

Arsyllwyr: Cynghorwyr Bill Cowie, Meirick Lloyd Davies, Gwyneth Kensler ac Arwel Roberts.

Aelodau Arweiniol: Cynghorwyr Huw Jones, David Smith a Julian Thompson-Hill wedi mynychu ar gais y Pwyllgor.

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth yr Amgylchedd (SP),Rheolwr Adran: Traffig a Chludiant (MJ), Swyddog Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau - Arfordirol (VS-M), Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol a Marchnata (GW), Uwch Beiriannydd - Rheoli Risg Llifogydd (WH), Rheolwr Tîm Prisio ac Ystadau (DM), Rheolwr Eiddo (DL), Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (GB), Uwch Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol (TW-E), Cydlynydd Craffu (RE) a Gweinyddydd Pwyllgor (SLW).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Huw Hilditch-Roberts, Win Mullen-James, Joe Welch a/ac Cheryl Williams

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriodd yr Is-Gadeirydd y cyfarfod ac ar ran y Pwyllgor llongyfarchodd y Cynghorydd James Davies a'i wraig ar enedigaeth ddiweddar eu mab, Wilfred.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu.

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim materion brys yn codi.

4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2013.

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2013 fel cofnod cywir.

5 GORFODI PARCIO

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Tir y Cyhoedd, y Cynghorydd David Smith, yr adroddiad gorfodaeth parcio (a gylchredwyd yn flaenorol) i Aelodau ei ystyried ac archwilio Strategaeth Gorfodaeth Parcio'r Cyngor a'i effaith ar ddatblygiad economaidd.

Ysgrifennwyd Polisi Parcio'r Cyngor ym 1996. Cafodd gorfodaeth parcio ei ddaddroseddoli yn Sir Ddinbych yn 2004. Cyn 2004, yr Heddlu a gynhaliodd y dasg o orfodi.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cyflogi 7 Swyddog Gorfodi Sifil llawn amser a 2 staff wrth gefn, 2 aelod o staff llawn amser i gasglu arian o'r peiriannau Talu ac Arddangos peiriannau ac un gweithiwr rhan-amser i gyfrif a phrosesu'r holl arian a gasglwyd.

Mae'r dirwyon a roddwyd gan Swyddogion Gorfodi Sifil yn cael eu galw'n Rhybuddion Talu Cosb (RhTC).

Cynhelir adolygiad o'r tîm Gorfodaeth Parcio fel rhan o'r ymarfer ailstrwythuro ehangach a oedd wedi bod yn mynd rhagddo yn y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylchedd.

Trafodwyd y canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd yna fwriad yn y dyfodol i gyflwyno camerâu corff i'w gwisgo gan Swyddogion Gorfodi Sifil ar gyfer lles diogelwch ond hefyd i helpu i ddarparu tystiolaeth hollbwysig mewn achosion lle honnir bod y Swyddog Gorfodi Sifil wedi bod yn anghwrtais neu'n ddigywilydd.
- Roedd Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun wedi defnyddio dyraniadau ariannol ei aelodau i ychwanegu at y costau parcio yn Rhuthun i gadw cost parcio'n isel.
- Gofynnwyd am arwyddion yn cyfeirio pobl i feysydd parcio "arhosiad hir" neu "arhosiad byr".
- Roedd Network Rail/Arriva yn edrych ar ddyfeisio mecanwaith ar gyfer maes parcio'r orsaf reilffordd ym Mhrestatyn a fyddai'n galluogi defnyddwyr trên i barcio am ddim ac eraill sy'n defnyddio'r maes parcio i dalu ac arddangos.
- Cynhelir adolygiad o bolisi parcio a pharcio yn gyffredinol ac astudiaeth i gael ei chynnal i sicrhau bod polisi prisio meysydd parcio yn ddigonol i annog twf economaidd lleol.

PENDERFYNWYD:

- (i) Pwyllgor Archwilio Cymunedau i gefnogi'r gwaith datblygu Polisi Parcio newydd ar y cyd rhwng Priffyrdd a Datblygiad Economaidd a Busnes, a bod adolygiad o'r polisi yn cynnwys archwilio darparu arwyddion parcio clir a phriodol ar draws y sir.
- (ii) Pwyllgor Archwilio Cymunedol i gefnogi'r cynnig i gynnal ymarfer cwmpas i werthuso'r gofynion manwl ar gyfer adolygiadau parcio a thraffig ym mhob tref a fydd yn galluogi llunio amcangyfrifon cost rhesymol gywir a.

(iii) Cyflwyno'r polisi parcio newydd drafft a chanlyniadau'r ymarfer cwmpasu ar gyfer adolygiadau parcio a thraffig mewn trefi i'r Pwyllgor i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2014.

6 STRATEGAETH ATAL BAW CŴN

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Tir y Cyhoedd, y Cynghorydd David Smith yr adroddiad ar y Strategaeth Atal Baeddu (a gylchredwyd yn flaenorol) i alluogi'r Aelodau i adolygu cynnydd yr ymgyrch hyd yma a chynlluniau dros y misoedd nesaf.

Roedd y cynllun wedi'i greu tua 9 mis yn ôl gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o gŵn yn baeddu yn Sir Ddinbych a hefyd i annog pobl i lanhau ar ôl eu cŵn.

Rhoddodd y Swyddog Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau - Arfordir, ddiweddariad i'r aelodau ynglŷn ag effaith monitro'r ymgyrch hyd yma.

Cafwyd trafodaeth ar y materion a ganlyn:

- Roedd siroedd cyfagos, gan gynnwys Cynghorau Cymuned yng Nghonwy wedi cysylltu â'r Cyngor, a ofynnodd am ddefnyddio delwedd yr ymgyrch gan ei fod yn profi i fod yn fwy effeithiol na'r un oedd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Roedd Cyngor Sir y Fflint hefyd wedi gwneud ymholiadau ynghylch yr arwyddion polyn lamp gan eu bod yn bwriadu defnyddio'r un fformat ar gyfer eu hymgyrch. Roedd y defnydd o arwyddion wedi bod yn llwyddiant mawr a defnyddir mewn llawer o leoedd i atgyfnerthu'r atal a lleihau achosion baeddu.
- Roedd rhaglen addysg wedi cael ei sefydlu. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno gan y Gwasanaethau leuenctid. Ymwelir ag ysgolion i ddangos enghreifftiau o'r deunydd hyrwyddo a gemau rhyngweithiol ac ati ar gyfer disgyblion i fynd adref.
- Roedd angen ystyried hirhoedledd yr ymgyrch a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi cyflwyno hyn. Roedd y prif gostau parhaus yn cynnwys disodli deunydd hyrwyddo a'r rhif ffôn 0800.
- Yn dilyn buddsoddiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gan y Cyngor bellach bron 1000 o finiau sbwriel ar draws y sir, ac maent i gyd yn derbyn gwastraff cŵn mewn bagiau. Roedd y biniau hyn hefyd yn ychwanegol at y biniau cŵn a osodwyd mewn ardaloedd twristiaeth. Roedd pob bin newydd yn cynnwys arwyddion yn dangos eu bod yn cymryd gwastraff cŵn ac roedd arwyddion/sticeri tebyg yn cael eu rhoi ar hen finiau. Archebwyd 120 o finiau ers i'r ymgyrch ddechrau.
- Codwyd y pwynt bod angen annog pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau fel arall ni ellir dileu'r broblem.
- Cafwyd cais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Peter Evans i Gallt Melyd gael eu rhestru ar wahân o fewn dogfennaeth y dyfodol a dim eu cynnwys o fewn Prestatyn, yn enwedig gan y bu problem fawr gyda baw cŵn ar hyd y llwybr o Brestatyn i Ddyserth.
- Byddai adroddiad ar Orchmynion Rheoli Cŵn yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio Mawrth 2014 ac ar ôl ei gymeradwyo yn y Pwyllgor Archwilio, bydd

yn mynd allan ar gyfer ymgynghori. Os yw Gorchmynion Rheoli Cŵn yn cael eu torri, byddai hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu cyflwyno.

- Byddai adroddiad am Kingdom hefyd yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio Mawrth 2014. Byddai'r adroddiad yn rhoi esboniad llawn o rôl Kingdom a diweddariad o'r gwaith a wneir ganddynt.
- Problem ailadroddus wedi cael ei monitro yn Cilgant, Corwen ac mae'r ddau Gynghorydd Cefyn Williams a Huw Ll. i gyfarfod gyda'r Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol ar gyfer diweddariad ynghylch pa gamau fyddai'n cael eu cymryd i ddelio â'r broblem.
- Mae pob milfeddyg a siop anifeiliaid anwes yn Sir Ddinbych wedi cael cynnig cardiau post a phosteri i godi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch.

Cynigiodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau eu diolch i'r Swyddog Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau – Arfordirol a'r Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol a Marchnata am eu holl waith caled ar yr ymgyrch.

PENDERFYNWYD:

- (i) Pwyllgor Archwilio Cymunedau i nodi'r cynnydd hyd yn hyn, yr effaith ac effeithiolrwydd y dull o fynd i'r afael â'r mater baw cŵn yn y sir, a'r
- (ii) Pwyllgor Archwilio Cymunedau i argymell y dylid gwneud pob ymdrech i gael gafael ar yr adnoddau angenrheidiol i gefnogi gweithrediad parhaus y strategaeth a darpariaeth y rhif ffôn 0800 ar gyfer y dyfodol.

Ar y pwynt hwn (10.55am) roedd toriad o 20 munud. Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.15am.

7 STRATEGAETH RHEOLI RISG LLIFOGYDD DRAFFT

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Tir y Cyhoedd, y Cynghorydd David Smith, y Strategaeth Rheoli Llifogydd Drafft (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) i'r aelodau ystyried fersiwn drafft terfynol y Strategaeth cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Dywedodd yr Uwch Beiriannydd, Rheoli Risg Llifogydd (SE: FRM) bod y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor, fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol i ddatblygu, cynnal, cymhwyso a monitro Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol. Yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i Awdurdodau Cymru a oedd yn awgrymu bod Strategaethau Rheoli Risg Llifogydd Lleol yn eu lle erbyn 31 Mawrth 2013. Roedd y Cyngor wedi bod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hyd nes y llifogydd mawr ym mis Tachwedd 2012. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gais y Cyngor ei fod yn gohirio cwblhau ei Strategaeth hyd nes yr adroddir i Lywodraeth Cymru am gasgliad yr ymchwiliad llifogydd.

Dywedodd SE:FRM ar y camau a oedd wedi digwydd ers y llifogydd ym mis Tachwedd 2012 a chytunodd i hysbysu aelodau am waith arfaethedig a'r gwaith a wneir o fewn eu wardiau. Roedd y ddogfen Strategaeth ddrafft wedi cael ei hanfon at yr holl aelodau, ond, gan ei bod wedi bod yn ddogfen mor sylweddol, cadarnhaodd SE:FRM bod aelodau yn e-bostio eu sylwadau ar y Strategaeth iddo erbyn 9 Rhagfyr 2013. Yna, byddai'r adborth a dderbyniwyd yn cael ei anfon i NRW.

Yn dilyn trafodaeth ddwys cytunodd yr SE:FRM:

- I edrych ar gynnydd NRW gyda'r gwaith modelu hydrolig a oedd yn rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb i atebion peirianyddol posibl i leihau'r risg o lifogydd yn Brwcws.
- I holi am y sefyllfa ddiweddaraf o ran disodli'r cylfat yn Llanbedr DC.
- I ddod o hyd i restr gynhwysfawr o'r holl eiddo ar hyd Ffordd Isaf Dinbych yn Llanelwy a fydd yn cael eu rhybuddio yn y dyfodol gan Wasanaeth Rhybudd Llifogydd NRW ar gyfer cynghorwyr sir lleol.
- Er mwyn sicrhau bod aelodau lleol yn cael gwybod am waith lliniaru llifogydd arfaethedig a wneir o fewn eu wardiau.

PENDERFYNWYD:

- (i) Yn amodol ar unrhyw sylwadau ychwanegol ar y Strategaeth Rheoli Llifogydd Lleol drafft y dylid eu cyflwyno i'r Uwch Beiriannydd: Rheoli Risg Llifogydd erbyn 9 Rhagfyr, 2013, y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig i symud ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r ymgyngoreion arfaethedig a restrwyd yn Atodiad 1.
- (ii) Yn amodol ar y materion a godwyd, i nodi'r sylwadau a'r camau a gymerwyd gan y Cyngor ac eraill mewn ymateb i argymhellion yr adroddiadau ymchwiliad i'r llifogydd Tachwedd 2012.
- *(iii)* Adroddiad dilynol ar weithredu'r Strategaeth a datblygiadau eraill ar faterion sy'n ymwneud â llifogydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod yr haf 2014.

8 RHAGLEN GYFALAF PRIFFYRDD DDRAFFT 2014/15 A'R CYNNYDD AR Y STRATEGAETH DDRAFFT

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Tir y Cyhoedd, y Cynghorydd David Smith, Raglen Cyfalaf Priffyrdd ddrafft 2014/2015 a Chynnydd ar Strategaeth Ddrafft (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i ddiweddaru'r Aelodau ac i alluogi'r Aelodau i drafod y fersiwn ddiweddaraf y Rhaglen o fewn yr amserlen angenrheidiol ar gyfer cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru i'w hystyried o dan y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol (LGBI).

Roedd y rhaglen ddrafft wedi cael ei chyflwyno i Grwpiau Ardal Prestatyn, Dyffryn Dyfrdwy a Rhuthun (MAG) ar gyfer eu sylwadau. Byddai'r Rhaglen Ddrafft hefyd yn mynd i'r MAGau eraill ar gyfer eu sylwadau. Mae'r adborth gan y MAGau hyd yma wedi bod yn gadarnhaol a dim ond mân newidiadau a wnaed i'r Rhaglen Drafft.

Mae ail ran yr adroddiad yn ymwneud â'r strategaeth yn symud ymlaen. Mae cyfarfod wedi'i drefnu i'w gynnal ar 3 Rhagfyr gydag Aelodau i drafod sut i fynd â'r strategaeth yn ei blaen. Byddai'n fater o fynd i'r afael â risg a Sir Ddinbych yn bod yn agored i'w herio.

Roedd angen i'r Cod Ymarfer gael ei mireinio, ac ar hynny byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

Gofynnir i Aelodau dderbyn rhestr gyflawn o waith cynnal a chadw priffyrdd a nodwyd ar draws y sir (gan gynnwys prosiectau hynny na flaenoriaethwyd ar gyfer 2014/15 ynghyd â rhesymau pam nad ydynt yn flaenoriaeth).

Gofynnwyd am adroddiad gwybodaeth ar Bolisi'r Cyngor ar arwyddion ar ochr y ffordd (a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Cefnffyrdd). Mynegodd yr aelodau bryder bod arwyddion hysbysebu digwyddiadau, nawdd a busnesau yn cael eu gosod ar hyd y ffyrdd ac ar gylchfannau ar draws y sir. Nid oedd nifer o'r arwyddion yn cydymffurfio â Pholisi laith Gymraeg y Cyngor a gallai rhai hyd yn oed fod yn beryglus i yrwyr a cherddwyr fel ei gilydd, yn enwedig ar gyffyrdd, cylchfannau ac ati, gan eu bod yn amharu ar welededd.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn:

- (i) Cytuno ar ddrafft diweddaraf y Rhaglen Gyfalaf Cynnal a Chadw Priffyrdd, yn amodol ar newidiadau pellach yn y Grwpiau Ardal Aelodau, a
- (ii) Nodi'r ddogfen Bolisi ac adolygu'r allbwn o'r Gweithgor Strategaeth Priffyrdd a Strategaeth Rheoli Asedau Priffyrdd drafft yn hwyr yn y gwanwyn/dechrau'r haf 2014.

9 RHOI PRYDLESI

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr adroddiad ynghylch Caniatáu Prydlesi Tir ac Adeiladau'r Cyngor i Grwpiau Cymunedol a'r Polisïau a Phrosesau sy'n gysylltiedig (dosbarthwyd yn flaenorol). Byddai'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am Bolisi'r Cyngor ar ganiatáu prydlesi yn arbennig i grwpiau cymunedol, nifer y prydlesi presennol, pa mor aml y'i hadolygir a'r prosesau ar gyfer caniatau, rheoli a phenderfynu ar unrhyw ostyngiad yn y taliadau a godir.

Roedd y sir yn berchen ar amrywiaeth o asedau anweithredol ac roedd llawer o'r eiddo yn cael eu meddiannu dan amrywiaeth o brydlesi i gymysgedd eang o denantiaid.

Gallai Prydlesi amrywio o dymor cymharol fyr i gyfnodau hirach a oedd yn effeithio ar werth yr ased i'r Cyngor ac yn adlewyrchu, i raddau, lefel y buddsoddiad a wnaed gan y Tenant.

Roedd gan y Cyngor bolisi safonol ar gyfer asedau eiddo anweithredol ac un ar wahân ar gyfer eiddo Dysgu Gydol Oes. Yn gyffredinol, pan fyddai eiddo yn cael ei ystyried yn weddill i anghenion y gwasanaeth, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Rheoli Asedau (GRhA). Os digwydd nad oes Gwasanaeth arall angen yr ased, byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r GRhA.

Cynhelir ymgynghoriad llawn gydag Aelodau a gwasanaeth i ddatgan gwarged asedau.

Byddai pob cais am brydles yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod unigol ei hun.

Defnyddiodd y Cyngor feini prawf safonol i asesu cryfder unrhyw gais llai na'i werth. Yr uchafswm llai na'i werth yr oedd y Cyngor yn barod i'w ganiatáu oedd 90% o rent y farchnad a byddai hwn am gyfnod penodol a gysylltir fel rheol â'r cylch adolygu rhent. Byddai unrhyw danbrisiad yn y rhent yn cael ei gofnodi drwy lythyr ochr i'r Brydles.

Yn y fan hon fe gynigiwyd ac eiliwyd bod y cyfarfod yn symud i Ran 2 a chynhaliwyd trafodaeth gyffredinol, a oedd yn cynnwys cais am wybodaeth ar nifer o asedau unigol.

PENDERFYNWYD yn amodol ar y sylwadau a wnaed ac y darperir y wybodaeth y gofynnwyd amdani, bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

10 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn ceisio adolygiad yr Aelodau o Raglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor a diweddariad ar faterion perthnasol, Rhaglen Waith i'r Dyfodol drafft (Atodiad 1), Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Cabinet (Atodiad 2) a Chynnydd gyda Phenderfyniadau'r Pwyllgor (Atodiad 3).

Cytunodd yr aelodau ar y diwygiadau canlynol i Rhaglen Waith i'r Dyfodol:

(i) 6 Mawrth 2014

- a. Polisi Parcio ac Ymarfer Sgopio Adolygiad Parcio a Thraffig
- b. Gorchmynion Rheoli Cŵn
- c. Kingdom
- (ii) Mai/Mehefin 2014
 - a. Strategaeth Rheoli Asedau Priffyrdd

(iii) Mehefin/Gorffennaf 2014

a. Strategaeth Rheoli Llifogydd a Materion Cysylltiedig â Llifogydd

PENDERFYNWYD yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwyo Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor Archwilio Cymunedau.

11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Eitem Agenda 5

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	23 Ionawr 2014
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Yr Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau
Awdur yr Adroddiad:	Y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol
Teitl:	Cyfamod y Gwasanaethau Arfog

1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Rhoi diweddariad ar sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiad i'r Cyfamod a gytunwyd gyda chymuned y Gwasanaethau Arfog.

2. Beth yw'r rheswm am lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybodaeth mewn perthynas â'r Cyfamod ac adrodd ar y camau a gyflawnwyd ers mabwysiadu'r Cyfamod ac adroddiadau blaenorol i'r Pwyllgor Archwilio.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar y camau a gymerwyd ac yn eu cymeradwyo.

4. Manylion yr adroddiad.

- 4.1 Datganiad gwirfoddol o gydgefnogaeth rhwng cymuned sifil a'i chymuned lluoedd arfog leol yw Cyfamod Cymunedol. Ei nod yw ychwanegu at gyfamod y Lluoedd Arfog gwladol, sy'n amlinellu'r ymrwymiad moesol rhwng y wlad, y llywodraeth a'r lluoedd arfog yn lleol. Prif nodau Cyfamod Cymunedol yw:
 - annog cymunedau lleol i gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog yn eu hardal
 - meithrin dealltwriaeth gyhoeddus ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o faterion sy'n effeithio ar Gymuned y Lluoedd Arfog
 - cydnabod a chofio'r aberthau a wynebir gan Gymuned y Lluoedd Arfog
 - annog gweithgareddau sy'n helpu integreiddio Cymuned y Lluoedd Arfog i mewn i fywyd cymdeithasol
 - annog Cymuned y Lluoedd Arfog i helpu a chefnogi'r gymuned ehangach, boed trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau a phrosiectau ar y cyd neu drwy fathau eraill o ymgysylltu.
- 4.2 Mabwysiadodd y Cyngor llawn y Cyfamod yn ffurfiol ar 11 Medi 2012 a gofynnwyd i Archwilio fodloni'i hun ar y mesurau yr oedd Sir Ddinbych yn

dymuno'u mabwysiadu. Cymeradwyodd Archwilio'i weithgareddau arfaethedig yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2012.

- 4.3 Cytunodd y Cyngor i enwebu 'Hyrwyddwr Gwasanaethau Arfog' (Aelod Arweiniol dros Gymunedau, y Cynghorydd Hugh Irving) ac enwi 'Swyddog Arweiniol Gwasanaethau Arfog' (Y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol).
- 4.4 Arwyddwyd Cyfamod Lluoedd Arfog Sir Ddinbych yn ffurfiol mewn seremoni arbennig yng Nghanolfan y Fyddin Diriogaethol, Prestatyn ar 2 Gorffennaf 2013. Roedd y Cadeirydd, yr Arweinydd a'r Aelod Arweiniol oedd yn cynrychioli'r Cyngor Sir yn bresennol ynghyd ag uwch gynrychiolwyr o'r Lluoedd Arfog, elusennau'r lluoedd arfog, sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n gweithio yn Sir Ddinbych, y Bwrdd Gwasanaeth Lleol a'r sector gwirfoddol.
- 4.5 Cynhaliwyd gweithdy gyda chynrychiolwyr elusennau gwasanaethau arfog a sefydliadau sector cyhoeddus allweddol i ddatblygu dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu personél y gwasanaethau arfog a chyn filwyr. Sefydlwyd Gweithgor gyda sefydliadau cyfrannog dan gadeiryddiaeth yr Aelod Cabinet Arweiniol. Rôl y gweithgor hwn yw cydlynu camau gweithredu, nodi bylchau yn y ddarpariaeth a chyfnewid gwybodaeth ac arfer da.
- 4.6 Nodwyd cam gweithredu allweddol yn y Cyfamod sef yr angen i sefydlu tudalen wybodaeth ymroddedig ar ein gwefan gyda chysylltiadau i sefydliadau a all roi cyngor a chefnogaeth ar faterion yn amrywio o bryderon lles i gyngor ar yrfaoedd. Mae'r dudalen hon bellach wedi mynd yn fyw a gellir dod o hyd iddi trwy ddilyn y ddolen gyswllt hon.

https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswyliwr/cymunedau-a-byw/cefnogirlluoedd-arfog.aspx

4.7 Ar ôl arwyddo'r Cyfamod, mae prosiectau yn Sir Ddinbych yn gymwys i geisio am gyllid Cronfa Gymunedol y Weinyddiaeth Amddiffyn ar yr amod ei fod yn bodloni'r meini prawf o fod o fantais i'r gymuned ac i'r gwasanaethau arfog. Mae'r Fyddin wedi mynd at y Cyngor Sir gyda phrosiect uchelgeisiol ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan i ddatblygu profiad i ymwelwyr / addysgol yn y Castell sy'n cynnwys system ffosydd gynhwysfawr newydd y Rhyfel Byd Cyntaf fel rhan o Ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd y ffosydd yn cael eu rheoli gan wirfoddolwyr sifil, cyn filwyr a gwirfoddolwyr sy'n gwasanaethu i ffurfio arddangosfa fyw am fywyd yn y ffosydd.

Cytunodd y Cyngor Sir trwy'r Grŵp Rheoli Asedau a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol i gefnogi'r cais. Rydym wrth ein boddau fod y cais wedi bod yn llwyddiannus a chymeradwywyd grant o £225,000 (yr un mwyaf yng Nghymru) gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn y gwanwyn a bydd y prosiect yn para pum mlynedd. Ar ddiwedd y pum mlynedd, cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth y Castell fydd y ffosydd. Rôl y Cyngor fydd monitro agwedd ariannol y prosiect a rhyddhau cronfeydd yn unol â hynny a bydd hyn yn cael ei wneud trwy'n Hadran Gyllid.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r canlyniadau yn y Cyfamod yn dangos ein hymrwymiad i 'fynd yn agosach at ein cymuned' trwy ddangos bod personél a chyn-filwyr y gwasanaethau arfog yn cael eu cefnogi pan fyddant yn cael eu hymgyfuno nôl i fywyd sifil.

6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes costau penodol yn gysylltiedig â chyflwyno'r camau gweithredu a nodwyd gan y Cyfamod. Bydd y Gwasanaethau unigol yn gyfrifol am unrhyw gamau cytûn sy'n dod i'r amlwg o'r Cyfamod neu'r Gweithgor.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (gweler yr Atodiad) mewn perthynas â'r Cyfamod a bydd yn cael effaith gadarnhaol. Dyma'r prif gasgliadau:

-tynnu ymaith neu leihau anfantais trwy sicrhau nad yw personél y gwasanaethau arfog, eu teuluoedd na'r cyn filwyr yn dioddef unrhyw anfantais wrth droi at wasanaethau.

- annog mwy o gyfranogiad gan y gymuned gwasanaethau arfog i gefnogi integreiddiad yn y gymuned leol.

8. Pa ymgyngoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio a phobl eraill?

Cynhaliwyd ymgysylltiad helaeth gyda sefydliadau allweddol sy'n cefnogi personél a chyn filwyr y gwasanaethau arfog. Hwylusir ymgynghori parhaus trwy'r Gweithgor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Diangen.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

Risgiau i enw da os na fydd y Cyfamod yn parhau i fod yn ddogfen a gymeradwyir gan y Cyngor a bod ei gamau yn cael eu cyflwyno ar sail partneriaeth

11. Y Grym i wneud y Penderfyniad

Mae'r Cyngor wedi gofyn i Archwilio gael trosolwg o'r Cyfamod a'i ddatblygiad.

Mae Erthygl 6.3.4(b) yn amodi grymoedd archwilio mewn perthynas ag archwilio amcanion a pherfformiad y polisi.

Swyddog Cyswllt:

Y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol Ffôn: 01824 706291



Atodiad

Cyfamod Gwasanaethau Arfog Sir Ddinbych Gorffennaf 2013

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb



Cyfamod Gwasanaethau Arfog Sir Ddinbych

Cyswllt:

Diweddarwyd:

David Davies, Y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol Mehefin 2013

1. Pa fath o gynnig / penderfyniad sy'n cael ei asesu?

Polisi newydd neu ddiwygiedig

2. Beth yw diben y cynnig / penderfyniad hwn, a pha newid (i'r staff neu'r gymuned) fydd yn digwydd o ganlyniad i'w weithredu?

Datganiad gwirfoddol o gydgefnogaeth rhwng cymuned sifil a'i Chymuned Lluoedd Arfog leol yw Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog. Ei nod yw ychwanegu at Gyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n amlinellu'r ymrwymiad moesol rhwng y Wlad, y Llywodraeth a'r Lluoedd Arfog yn lleol.

Pwrpas y Cyfamod Cymunedol hwn yw annog cefnogaeth i Gymuned y Lluoedd Arfog sy'n gweithio ac yn byw yn Sir Ddinbych a chydnabod a chofio'r aberth a wnaed gan aelodau'r Gymuned Lluoedd Arfog hon, yn enwedig y rhai sydd wedi rhoi'r mwyaf. Mae hyn yn cynnwys personél wrth eu swyddi a chyn bersonél y Gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gwŷr/gwragedd gweddw yn Sir Ddinbych.

3. Ydy'r cynnig / penderfyniad hwn yn gofyn am asesiad o effaith ar gydraddoldeb? Os nac ydy, esboniwch pam.

Sylwch: Os bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl (y staff neu'r gymuned), yna **rhaid** cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb

Ydy	<os am="" crynhowch="" fan<="" nac="" penderfyniad="" rhesymau="" th="" y="" ydy,=""></os>
	hyn, a neidiwch ymlaen i'r datganiad ar y diwedd>

4. Darparwch grynodeb o'r camau a gymerwyd, a'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i gyflawni'r asesiad hwn, gan gynnwys unrhyw ymgysylltiad a wnaed

(Cyfeiriwch at ran 1 yn y pecyn cymorth i gael arweiniad)

Prif egwyddor Cyfamod y Gwasanaethau Arfog yw sicrhau nad yw aelodau'r gwasanaethau arfog, eu teuluoedd na'r cyn filwyr yn dioddef unrhyw anfantais wrth droi at y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog ddisgwyliadau o'r sector cyhoeddus wrth fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar y gymuned Lluoedd Arfog, gan gynnwys: - y gwasanaethau cymdeithasol (iechyd meddwl, mynd i'r afael â straen,

Tudalen 18

profedigaeth etc),

- addysg (dalgylchoedd ysgol),
- tai (statws blaenoriaeth Cymorth Prynu, digartrefedd, cyngor ar dai etc),
- budd-daliadau a threth (gostyngiad treth gyngor i bersonèl y Lluoedd a chanddynt ail gartrefi ond sy'n byw yn llety'r Weinyddiaeth Amddiffyn etc)
- cymorth ar ôl gwasanaethu (e.e. hawl i gynllun y Bathodyn Glas)
- cofrestr etholwyr (annog pleidleisio trwy ddirprwy / post) fan hyn>
- 5. A fydd y cynnig / penderfyniad hwn yn cael effaith gadarnhaol ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig (oedran; anabledd; ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol)?

(Cyfeiriwch at ran 1 yn y pecyn cymorth am ddisgrifiad o'r nodweddion gwarchodedig)

- tynnu ymaith neu leihau anfantais trwy sicrhau nad yw personél y gwasanaethau arfog, eu teuluoedd na chyn filwyr yn dioddef unrhyw anfantais wrth droi at wasanaethau.

- annog mwy o gyfranogiad gan y gymuned gwasanaethau arfog i gefnogi integreiddio yn y gymuned leol.

- meithrin cysylltiadau da rhwng personél y gwasanaethau arfog, eu teuluoedd a'r cyn filwyr yn enwedig y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt, sef y gymuned sifil.

6. A fydd y cynnig / penderfyniad hwn yn cael effaith negyddol anghymesur ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig (oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol)?

Na fydd. Nod y Cyfamod yw cefnogi effaith gadarnhaol ar gymuned y gwasanaethau arfog yn Sir Ddinbych.

7. Ydy'r cynnig / penderfyniad wedi'i addasu i ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol anghymesur posibl? Os nac ydy, esboniwch pam.

Mae'r Cyfamod drafft wedi'i rannu gyda'r gwasanaethau arfog, y Llynges Frenhinol Brydeinig ac elusennau SSAFA a chynhaliwyd gweithdy i archwilio materion oedd yn achosi
pryder. Diwygiwyd y drafft i archwilio ac adlewyrchu'r materion hyn.

8. Ydych chi wedi nodi unrhyw gamau pellach i fynd i'r afael ag unrhyw effaith/effeithiau potensial ac/neu eu monitro?

Ydyn	<os esboniwch="" fan<="" isod.="" llenwch="" nac="" os="" tabl="" th="" y="" ydych,=""></os>
	hyn>

Cam(au)	Perchennog	Erbyn pryd?
Penodi Hyrwyddwr y Gwasanaethau Arfog	David Davies	Gorffennaf 2013
Sefydlu Gweithgor y Cyfamod	David Davies	Medi 2013
Adolygiad o'r Cyfamod	David Davies	Gorffennaf 2014

9. Datganiad

Gwnaed pob ymdrech resymol i ddileu neu leihau unrhyw ddarpar effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Bydd gwir effaith y cynnig / penderfyniad yn cael ei adolygu ar y cam priodol.

Dyddiad yr	<gorffennaf< th=""></gorffennaf<>
Adolygiad:	2014>

Enw'r Swyddog Arweiniol ar gyfer yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb	Dyddiad
David Davies>	Mehefin 2013

Sylwch y bydd angen i chi gyhoeddi canlyniad yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb os nodwch effaith debygol sylweddol

Eitem Agenda 6

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	23 Ionawr 2014
Aelod Arweiniol:	Yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Datblygu Busnes ac Economaidd
Teitl:	Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen – Adroddiad Chwarterol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ynglŷn â Strategaeth Adfywio Y Rhyl yn Symud Ymlaen.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I werthuso a monitro cynnydd a chyflawniadau'r Rhaglen wrth iddi gyflawni ei chanlyniadau disgwyliedig, ac i adnabod unrhyw lithriad o fewn trosglwyddiad y rhaglen.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai'r Aelodau nodi a rhoi sylwadau ar y cynnydd a wnaed.

4. Manylion yr adroddiad.

Mae'r adroddiadau diweddaraf ar Ddiweddariad o'r Rhaglen wedi'u hatodi yn Atodiadau 1a i 1d yn dangos hynny o ran y pedwar ffrwd yng ngwaith y rhaglen:

- Mae statws presennol Ardal Adfywio Gorllewin y Rhyl yn FELYN (Atodiad 1a)
- Mae statws presennol Canol y Dref yn OREN (Atodiad 1b)
- Mae statws presennol yr ardal Glan y Môr a Thwristiaeth yn FELYN (Atodiad 1c)
- Mae statws presennol Byw a Gweithio yn y Rhyl yn OREN (Atodiad 1d)

Gorllewin y Rhyl

Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog i gymeradwyo'r Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG), mae'r gwaith wedi mynd rhagddo ar gaffael yr eiddo sydd ar ôl ac sydd angen bod yn rhan o'r Prosiect Gwella Tai, a hefyd y gwaith o adleoli trigolion sydd wedi eu heffeithio gan y prosiect. Mae'r tîm a benodwyd i ddylunio'r Gofod Gwyrdd wedi trefnu digwyddiadau ymgynghori yn y gymuned ac wedi paratoi syniad bras o'r dyluniad ar gyfer yr ardal. Y cyfnod nesaf fydd dymchwel yr adeiladau a bydd hynny'n digwydd ar ôl gorffen y broses o brynu gweddill yr eiddo.

Canol y Dref

Fe drefnodd y Cyngor Sir raglen o ddigwyddiadau yn ystod yr wythnosau cyn y Nadolig - bu'n llwyddiant gyda llawer mwy o bobl yn mynychu'r digwyddiadau na'r flwyddyn flaenorol ar yr un adeg o'r flwyddyn. Mae'r grŵp tasg a gorffen wedi cychwyn gweithio ar ddatblygu strategaeth ar gyfer canol y dref, ac mae aelodau o'r Grŵp Rheoli Canol y Dref yn parhau i edrych ar wahanol fodelau wedi eu mabwysiadu mewn ardaloedd eraill mewn awdurdodau cyfagos i hysbysu'r datblygiad ynglŷn â threfniadau'r dyfodol ar gyfer y Rhyl. Rydym yn dal i ddisgwyl am y trefniadau ar gyfer gwneud cais am gyllid sydd wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardaloedd nad oedd yn llwyddiannus yng nghyfnod cyntaf y broses gais Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Glan y Môr a Thwristiaeth

Mae gwaith yn parhau i symud ymlaen ar ddatblygu'r achos ar gyfer cyfleusterau hamdden newydd ar hyd yr arfordir, ac awgrymwyd rhoi'r eitem ynglŷn ag opsiynau'r dyfodol ar gyfer cyfleusterau sy'n cael eu gweithredu gan Clwyd Leisure ar agenda cyfarfod y Cabinet i'w gynnal ar 14 Ionawr. Mae ymgynghoriadau cyn cyflwyno cais ynglŷn â dyluniad y gwesty arfaethedig ar safle'r hen Honey Club wedi bod yn nwylo gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor Sir a bydd cais cynllunio i ddilyn gan y datblygwr o ddewis. Disgwylir y bydd y gwesty'n cael ei orffen, ac yn weithredol erbyn hydref 2014. Mae'r gwaith adeiladu ar yr adeilad newydd ar yr harbwr yn parhau i fynd yn ei flaen ac yn dal i fod ar amser i gael ei gwblhau ddechrau 2014.

Byw a Gweithio yn y Rhyl

Allan o'r holl ffrydiau gwaith dyma'r agwedd sydd heb gael ei ddatblygu gymaint â'r gweddill, ac mae'r grŵp tasg a gorffen wedi cychwyn datblygu Cynllun Tref ac Ardal y Rhyl a fydd yn adnabod gweithredoedd o flaenoriaeth a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r nodau ac amcanion ar gyfer y ffrwd gwaith. Yn y cyfamser, mae swyddog wedi'i benodi i redeg y prosiect Cysylltiadau Gwyrdd ac wedi cysylltu â pherchnogion tai o fewn yr ardal berthnasol o ward Gorllewinol y dref i gymryd mantais o welliannau effeithiolrwydd ynni sydd ar gael trwy ran nesaf o'r cynllun "Arbed".

Perthynas gyda'r Cynllun Tref ac Ardal arfaethedig ar gyfer Y Rhyl

Rhwng Rhagfyr 2011 a Mawrth 2012 fe gymeradwyodd y Cabinet Gynlluniau Tref a oedd wedi eu datblygu ar gyfer y saith tref fwyaf yn y sir ar wahân i'r Rhyl. Ni chafodd Cynllun Tref ei ddatblygu ar gyfer y Rhyl ar yr amser hynny gan mai'r flaenoriaeth fwyaf ar y pryd oedd datblygu fframwaith strategol ar gyfer adfywio'r dref ac o ganlyniad fe gafodd y Cynllun y Rhyl yn Symud Ymlaen ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2011. Mae'r Cynlluniau Tref wedi bod yn fecanwaith effeithiol ar gyfer dyrannu adnoddau o gyllideb gwasanaeth presennol y Cyngor Sir ac o'r gyllideb hynny a roddwyd i un ochr i gefnogi'r broses o drosglwyddo'r flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer "Datblygu'r economi leol" ar gyfer gweithredu'r gweithredoedd o flaenoriaeth a adnabuwyd. Er hynny ni cheir dogfen debyg ar gyfer y Rhyl ac mi fyddai cael un yn amlwg yn ddymunol er mwyn helpu i adnabod

gweithredoedd o flaenoriaeth ac i adnabod yr holl ffrydiau cyllido posib sydd ar gael o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

Mae gan y Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen gylch gorchwyl hynod benodol mewn perthynas i adfywio'r dref ac i ddiffinio'r cylch gorchwyl mae Bwrdd y Rhaglen wedi mabwysiadu'r diffiniad mwyaf diweddar o adfywio gan Lywodraeth Cymru sef" cyfres integredig o weithgareddau gyda'r bwriad o wrthdroi'r dirywiad economaidd, cymdeithasol a ffisegol er mwyn cyflawni gwelliannau hiroes yn yr ardaloedd lle na fydd grym y farchnad yn gallu gwneud hynny ar ei phen ei hun heb ryw fath o gymorth gan y llywodraeth". Mae SDRh (yr hen Strategaeth Dinas y Rhyl) a Chymunedau yn Gyntaf yn arwain ar y cyd ar y themâu economaidd a chymdeithasol gyda Bwrdd Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen yn gyfrifol am yr elfennau ffisegol sy'n ymdrin â'r prosiectau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar adeiladau, datblygu safleoedd a gwella'r amgylchedd. Mae aelodaeth Bwrdd y Rhaglen yn adlewyrchu ar yr angen i sicrhau fod y tair thema sydd ar ôl yn cael eu cefnogi bob amser.

Bydd gan y Cynllun Tref ac Ardal gylch gorchwyl llawer ehangach na rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen a bydd hefyd yn cynnwys gweithrediadau o flaenoriaeth i wneud gwelliannau mewn rhannau o'r dref sydd ddim angen eu hadfywio yn ôl Llywodraeth Cymru. Mae rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen yn arwain ar elfennau o adfywio ffisegol yn y Cynllun Tref ac Ardal. Gwelir y berthynas hon yn Atodiad 3. Bydd y Cynllun Datblygu Tref ac Ardal yn chwarae rhan allweddol mewn adnabod prosiectau i'w hystyried i'w gweithredu trwy'r ffrydiau gwaith Byw a Gwaith a Chanol y Dref yn y rhaglen Y Rhyl Yn Symud Ymlaen sydd, ar hyn o bryd, wedi derbyn y lleiaf o sylw allan o'r pedwar ffrwd gwaith yn y rhaglen.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1: Blaenoriaeth 1 – Datblygu'r Economi Lleol a'n Cymunedau

Prif nod y Strategaeth Adfywio RGF yw creu mwy o gyfleoedd swyddi a busnesau yn yr ardal, a mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon yn uniongyrchol.

5.2: Blaenoriaeth 6 – Sicrhau mynediad at dai o ansawdd dda

Yn benodol, bydd yr WRHIP yn cael effaith uniongyrchol ar y canlyniad blaenoriaeth "cynnig ystod o fathau a ffurfiau tai...i ddiwallu anghenion unigolion a theuluoedd".

6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does gan y strategaeth adfywio gyffredinol ddim cyllideb benodedig. Mae arian yn cael ei ddyrannu i brosiectau penodol, gan ddefnyddio ffynonellau ariannu allanol yn bennaf, ac mae'r arian yn cael ei fonitro fesul prosiect.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

Bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) ar gyfer prosiectau penodol neu weithgareddau a fanylir o fewn y Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen yn cael eu

datblygu ar gyfnodau priodol fe a wnaethpwyd o'r blaen gyda'r Prosiect Gofod Gwyrdd yng Ngorllewin Y Rhyl. Gellir gweld yr EqIA ar gyfer yr holl raglen yn Atodiad 4.

8. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?

Mae'r rhaglen yn cael ei monitro gan y Bwrdd Rhaglen aml-asiantaeth sy'n sicrhau bod agwedd gyson gan yr asiantaethau allweddol yn y Rhyl. Mae adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi er mwyn sicrhau fod yna ymwybyddiaeth ehangach o fewn y gymuned i'r strategaeth. Mae gan brosiectau unigol eu strategaeth ymgynghori eu hunain.

9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r risgiau yn cael eu monitro trwy ddefnyddio Cofrestr Risg y Rhaglen (Atodiad 2).

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Erthygl 6.3.4 (b) o Gyfansoddiad y Cyngor

Swyddog Cyswllt Arweinydd Tîm yr Arfordir Rhif Ffôn 01824 708416

Appendix 1a West Rhyl Highlight Report January 2014



Current Status:

YELLOW

Previous Status:

YELLOW

Aims & Objectives

In the West Rhyl Regeneration Area we are trying to create an attractive neighbourhood where working people will want to live

- 1. To create a balanced housing market which is not dominated by one type of housing or by one type of tenure.
- 2. To create a balanced, stable community with more economically active people living in the neighbourhood.
- 3. To improve the appearance and perception of the area

What's going well?

Overall the project status remains very good although there has been some delay with the target dates for plans for refurbishment of properties in the various blocks. The table below details amended anticipated target dates

Phase 2 demolition of Aquarium Street/John Street/Hope Place and Abbey Street commences January 20th 2014 through until March 2014. Excellent progress continues with the resettlement programme with 99 households in the rented sector being relocated with no negative issues as at the end of December 2013. There are 49 household to re-locate this financial year and a further 6 scheduled for next financial year. In respect of privately owned properties, 28 in total, all properties will be vested in the Council between February and March 2014. Negotiation to finalise terms continues

Capita have now completed the public consultation exercise with attendance disappointing despite widespread awareness raising. The outcome of the consultation days and previous surveys carried out is that in general the public wish to see a pleasant green area in which families can enjoy peaceful recreation which is safe, secure and well maintained. The concept design has been developed but is subject to further amendments subject to comments from stakeholders. The concept is not being presented to Cabinet as previously reported as upon checking the agreed process, Council minutes record that those powers were delegated to the Project Board which will consider the proposals on 16th January 2014

The project budget remains well managed and within parameters

What concerns us and what are we doing about it?

The Project Delivery Confidence remains at yellow, despite concerns around re-settlement issues having been allayed due to the excellent work carried out by the Officer with these responsibilities. The project remains quite a challenge to deliver within the funding timeframe, but is being monitored and well managed.

Outlook

A number of risks remain, however these are considered and managed by the Project Co ordination Group as the project progresses.

Committed Projects

A commitment has been made to deliver the project and the necessary funding is in place.

Project	Lead Organisation	Forecast Completion	Delivery Confidence
West Rhyl Housing Improvement	WG/Pennaf/ DCC	Mar 15	YELLOW

In Development

Feasibility or ongoing development of the project is underway.

Project Lead Comments				
Project	Lead Organisation	Comments		
Block 1 (Green Space)	DCC	 Landscape Architect engaged Community consultation carried out Concept design to be approved by Project Board by 16 January 2014 Detailed design submitted for Planning approval 17th March 2014 Planning consent May 2014 Construction start July 2014 Park open April 2015 		
Block 7 (3-9 Abbey Street) Block 7 (10-24 Abbey Street & 8-12 Hope Place)	Pennar	 Planning consent achieved September 2013 Specification of works under preparation Revisiting design of 3 Abbey St to provide 2X2b4punits instead of 1 x 4b7p unit Scheme is being grouped with improvements to 6=12 Edward Henry St to provide value for money 6-12 Edward Henry Street being submitted for planning in January 2014 "Prestige house" (rear of 1a Abbey Street) to be demolished to provide parking area Scheme will provide 3 x 2b4p, 5 x 3b5p and 1 x 1b4p 		
Block 2 (3-29 Gronant Street)	Pennaf	 Design and development ongoing designs to be finalised Jan 14 and planning submission Feb 14 Schemes to be grouped together to provide value for money Land to rear to be incorporated to provide more garden space and off street parking for 15-29 Gronant St Demolition of properties on Hope Place to provide parking and garden space for development of 		

		family homes at 10-20 Abbey Street)		
Block 3 (2-16 Aquarium Street)	WG	These properties in addition to the vacant plot on West Parade are to be marketed to the private sector for development in accordance with the SPG		
Block 4 (14-24 John Street)		 These properties are to be refurbished 		
Block5 (1-11John Street & 18 Aquarium Street)		 These properties in addition to the vacant plot on West Parade are to be marketed to the private sector for development in accordance with the SPG 		
Block 6 (13-41 Abbey Street)		 These properties are to be refurbished 		
Edward Henry Street West (6-12)	Pennaf	 4 large 8/9 bedroom properties to be converted into single domestic dwellings, 3no 3 bed 5 person unit and 1no 4bed 6 person unit Planning consent due for submission Oct 2013 		
Edward Henry Street East	WG/Pennaf/ DCC	On the East side of Edward Henry Street, all the properties with the exception of the Last Orders pub are in either Pennaf or DCC ownership. Pennaf are developing proposals for the future use of the buildings/site.		

Under Consideration

CURRENTLY NO PROJECTS UNDER CONSIDERATION

Indicators of Success

This table is now under development and statistics awaited

Indicator	Baseline (2010)	Target	Most Recent	Performa nce
A balanced Housing Market - Tenure				
Percentage of houses in multiple occupation in West Rhyl (SPG defined area)	To be developed			
Percentage of houses in single occupancy				
Percentage of private rented houses in West Rhyl				
Percentage of owner occupied houses in West Rhyl				
Percentage of RSL houses in West Rhyl				
A balanced Housing Market - Type				
Percentage of 2-bed houses in West Rhyl				
Percentage of 3-bed houses in West Rhyl				
Percentage of 4-bed houses in West Rhyl				
Percentage of 5+ bed houses in West Rhyl				
Stable community with economically active p	people			
Transience info from schools		A		
Job-seekers allowance claimants				
Improved appearance and perception	Notest			
Environmental Satisfaction survey				
Recorded crime				
Recorded anti-social behaviour				

Performance Measures

Measure	Block	Block	Block	Block	Block	Block	Block	Total
	1	2	3	4	5	6	7	
Acquisitions								
Number of properties	40	15	8	8	7	16	17	111
Acquired so far	39	15	4	4	5	11	14	92
Completion Rate	97.5%	100%	50%	50%	71.5%	69%	83%	83%
Relocations								
Number of relocations	59	4	17	9	9	27	3	128
(rented sector only)	\mathcal{V}							
Relocations so far	59	4	10	3	9	12	2	99
Completion Rate	100%	100%	59%	33%	100%	44%	67%	77%
Demolition								
Number to be demolished	38	1	0	0	7	0	7	53
Demolished so far	21	1	0	0	0	0	0	22
Completion Rate	55%	100%	0%	0%	0%	0%	0%	42%
Refurbishment								
Number to be refurbished	0	15	8	7	0	12	8	50
Refurbished so far	0	0	0	0	0	0	0	0
Completion Rate	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%
New Build								
Number to be built	0	0	0	0	6	0	2	8
Built so far	0	0	0	0	0	0	0	0
Completion Rate	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%

Figures above don't include the development site fronting West Parade. This is being promoted as a mixed use development opportunity along with Block 3 and 5 and once a development partner has been selected there will be additional performance measures produced.

Figures above also exclude any work in Edward Henry Street where firm proposals are yet to be developed.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 1b Town Centre Highlight Report January 2014



Aims & Objectives Current Status: In the town centre we are trying to create new business and job ORANGE opportunities by supporting investment in retail, but also by introducing new uses and diversifying the town centre economy. 1. To improve the shopping experience in the town centre by Previous ensuring that it is easy to access and that it has a clean and tidy Status: environment 2. To enhance the retail offer by securing investment from national ORANGE chains regarded as key attractors and supporting the establishment and growth of independent retailers 3. To increase footfall in the prime retail area by promoting new uses in vacant and under used property previously used for retailing in adjacent streets

What's going well?

Following the transfer of responsibility for town centre events to the County Council, an exciting Christmas programme was successfully delivered following the Christmas lights switch on by Brian McFadden on 28th November. The data from the camera in the High Street showed an increase in footfall on three of the four Saturdays in the run up to Christmas compared to the equivalent days in the previous year which is positive.

A task and finish group has continued its work on the development of a town centre strategy in conjunction with the development of a Town & Area Plan for Rhyl.

North Wales Police have initiated discussions about the replacement of the existing analogue radio link system with new digital equipment which could also serve Prestatyn town centre. The County Council is exploring the suitability of this project for a placement for Coleg Llandrillo Police Studies foundation degree students.

What concerns us and what are we doing about it?

Following the decision of the Minister for Housing & Regeneration not to invite a second stage application from Rhyl for funding through the Vibrant & Viable Places Framework, details of the application process for the remaining funds have yet to be publicised and these are not now expected until February at the earliest.

Traders had expressed their concern about the impact on their businesses from the enforcement of the existing Traffic Management Order which restricts cars from entering the northern most part of the High Street between 5pm and 10am. A site meeting was arranged for the traders with representatives of North Wales Police and the County Council Traffic Management & Parking section after which a door to door consultation was undertaken jointly by traders and County Council Economic & Business Development to inform a review of the existing Order.

Following the departure of the Town Centre Manager, members of the Town Centre Management Group are continuing to look at best practice from other towns to inform the development of a successor post and a meeting with the Town Centre Management Group in Colwyn Bay is expected to take place shortly.

Outlook

